# Adroddiad Blynyddol Rieni

## *Annual Report to Parents*

# 2023/2024

Ysgol Gymunedol Penrhyn-Coch, Penrhyn-coch, Aberystwyth, Ceredigion, SY23 3EH Tel: (01970) 828566

Ysgol Penllwyn, Penllwyn, Capel Bangor, Aberystwyth, Ceredigion. SY23 3LP

Pennaeth: Miss Catryn Lawrence

Ebost / Email: prif@penrhyncoch.ceredigion.sch.uk / prif@penllwyn.ceredigion.sch.uk

FFederaliaeth Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn - Home (llwyncoch.cymru)

## Cyflwyniad

Mae'n ofynnol i Gyrff Llywodraethol ysgolion a gynhelir cynhyrchu Adroddiad Blynyddol i rieni. Mae cynnwys yr adroddiad yn statudol, er gall Cyrff Llywodraethol ddewis gynhyrchu gwybodaeth allai fod yn ddefnyddiol.

Yr adroddiad blynyddol yw'r prif ddull ffurfiol y gall y Corff Llywodraethol ddangos eu hatebolrwydd i rieni. Mae'n cynnig cyfle nid yn unig i gyfathrebu â rhieni am yr hyn sydd wedi bod yn digwydd yn yr ysgol yn ystod y flwyddyn flaenorol ond hefyd i rannu cynlluniau'r Corff Llywodraethol ar gyfer hyrwyddo safonau uchel o gyflawniad addysgol ac i fynd ati i gasglu barn rhieni am y dyfodol.

Mae'r rheoliadau yn caniatáu i ysgolion ddarparu Adroddiad llawn yn unig i'r rhieni sydd yn gofyn am gopi a chyhoeddi crynodeb ar gyfer yr holl rieni.

Mae copi o'r Adroddiad llawn ar wefannau'r ysgolion FFederaliaeth Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn - Minutes of Meetings (llwyncoch.cymru) neu drwy gysylltu â'r ysgol.

## *Introduction*

*All Governing Bodies of maintained schools are required to produce an annual report to parents. The contents are statutory, however Governing Bodies may choose to add additional information which they think may be useful.*

*The Annual Report is the main formal means by which the Governing Body can demonstrate their accountability to parents. It provides an opportunity to not only engage with parents on what has been happening at the school during the previous year but to share the governing body's plans for promoting high standards of educational achievement and to actively seek the views of parents for the future.*

*The regulations allow for schools to make the full report available only to parents who request it, and to issue a summary report for distribution to all parents.*

*Copies of the full report can be accessed via the school's website* FFederaliaeth Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn - Minutes of Meetings (llwyncoch.cymru) *or by contacting either school.*

<u>Gair gan y Cadeirydd Mr Rob Mills a'r Is-gadeirydd Gareth Hoskins</u>

Ar ran y corff llywodraethol, hoffem ddiolch i dîm addysgu a staff cynorthwyol Penrhyn-coch a Phenllwyn sydd wedi bod yn wych yn eu hymdrechion dros y flwyddyn ddiwethaf. Yn dilyn ymlaen o adroddiad Estyn 2022, rydym wedi parhau i ymdrechu i gynnal y safon y cawsom ein canmol amdano yn ystod ymweliad Estyn, ac adeiladu ar eu hargymhellion. Mae ein gwaith yn y maes hwn wedi'i rannu fel arfer dda, gyda'r ysgol yn cynnal ac yn cyflwyno mewn digwyddiadau arfer dda yng Ngheredigion a thu hwnt.

Yn wyneb amodau cyllidebol heriol, mae cymuned yr ysgol wedi cynhyrchu incwm ychwanegol gwerthfawr o grantiau a chodi arian. Mae'r buddion uniongyrchol i ddisgyblion wedi cynnwys tripiau i'r theatr, prosiect roboteg gyda Phrifysgol Aberystwyth, gardd synhwyraidd newydd yn Ysgol Penllwyn, arwyddion ar gyfer yr iard ym Mhenrhyn-coch a darn o ffrwyth amser egwyl ar gyfer holl ddisgyblion difreintiedig ysgol Penrhyn-coch.

Mae nifer ein cymuned yn cynyddu. Yn Ysgol Penrhyn-coch ar hyn o bryd mae 111 o ddisgyblion a 40 o ddisgyblion yn mynychu Ysgol Penllwyn. O ganlyniad, mae ystafell ardd ar gyfer gwaith grwpiau bach wedi'i chodi yn Ysgol Penrhyn-coch.

Diolch yn fawr i'r llu o wirfoddolwyr sy'n cyfoethogi profiad disgyblion Ysgol Penllwyn a Phenrhyn-coch. Mae'r disgyblion yn elwa cymaint o'u cyfraniad i gefnogi'r ddarpariaeth ar gyfer darllen, garddio, gwau, celf a chrefft, ac i gynnig profiadau cyfoethog i'n disgyblion.

Ein bwriad eleni oedd cynyddu'r cyfleoedd a roddir i ddisgyblion drwy waith yr ysgol gyda'r Urdd. Roeddem yn falch gweld hyn yn dwyn ffrwyth! Bu disgyblion yn cystadlu'n dda mewn digwyddiadau chwaraeon, gan gyd-chwarae ar draws y ddwy ysgol, cafwyd llawer o lwyddiant ar lefel sirol gyda chystadlaethau celf a chrefft, a chynrychiolwyd y ddwy Ysgol ar lefel sirol gan gynnig cyfleoedd i ddisgyblion brofi dawnsio gwerin a cherdd dant meysydd nad yw disgyblion wedi'u profi o'r blaen. . Fel cymuned ysgol rydym yn falch iawn fod Ysgol Penllwyn wedi cynrychioli a dod i'r brig ar lefel genedlaethol mewn celf a chrefft a chystadlaethau unigol.

Unwaith eto, hoffai'r llywodraethwyr ddiolch i'r holl staff am eu gwaith caled a'u hymrwymiad i wneud Penrhyn-coch a Phenllwyn yn amgylcheddau dysgu rhagorol i'n plant. Rydym yn ymwybodol bod rhan fawr o'n llwyddiant yn dibynnu ar gymorth a chefnogaeth rhieni. Diolch i bawb am eich holl gyfraniadau mawr a bach.

*<u>A word from the Chair, Rob Mills and the Vice-Chair, Gareth Hoskins</u>*

On behalf of the governing body, we would like to express our thanks to the teaching team and support staff at Penrhyncoch and Penllwyn who have been fantastic in their efforts over the last year. Following on from Estyn's 2022 report we have continued to strive to maintain the standard for which we were praised during that visit, and build on the reccomendations made. Our work in this area has been shared as good practice, with the school hosting and presenting at good practice events in Ceredigion and beyond.

In the face of challenging budgetary conditions, the school community has generated much needed additional income from grant funding and fund raising. Direct benefits to pupils have included trips to the theatre, a robotics project with Aberystwyth University, a new sensory garden at Ysgol Penllwyn, signage for the yard at Penrhyncoch and a piece of fruit at breaktimes for all disadvantaged pupils.

Our community's number is growing; Ysgol Penrhyncoch currently having 111 pupils and 40 pupils attending Ysgol Penllwyn. As a result, the addition of a garden room for small group work has been erected at Ysgol Penrhyncoch.

Much thanks must go to the many volunteers who enrich pupils experience at Ysgol Penllwyn and Penrhyncoch. Pupils benefit so much from their contribution to supporting regular provision for reading, gardening, knitting, arts and crafts, and also providing interesting hooks to learning. Thank you to all for your contribution.

Our intention this year was to increase the opportunities afforded to pupils through the school's work with the Urdd.  We were pleased to have an instant return on our efforts. Pupils competed well at sporting events, playing jointly across both schools. Much success was had at county level with arts and crafts tournaments, and both Schools represented at county level, offering new opportunities for pupils to experience folk dancing and cerdd dant. As a school community we are very proud that Ysgol Penllwyn achieved high ranking positions at national level in both arts and craft and individual competitions.

Once again, the governors would like to thank all the staff for their hard work and commitment to making Penrhyncoch and Penllwyn excellent learning environments for our children.  We're conscious that a big part of our success relies on the help and support from parents. Thanks everyone for all your contributions big and small.

**ADRAN 1 – CRYNODEB O'R ADRODDIAD**

***SECTION 1 – SUMMARY REPORT***

1. **Hysbyseb o Gyfarfod Blynyddol Rhieni/Llywodraethwyr i ddod *(os caiff ei gynnal o dan Adran 94 o Ddeddf Trefniadaeth Safonau Ysgolion (Cymru) 2013):**

   ***Notification of upcoming AGPM Meeting *(if held under Section 94 of the School Standards Organisation (Wales) Act 2013:***

Ni dderbyniwyd deiseb yn gwneud cais am gyfarfod, felly ni chynhaliwyd Cyfarfod Blynyddol yn y flwyddyn 2022/23 oherwydd ni holwyd am gyfarfod.

*The governing body did not receive a petition requesting a meeting, and therefore did not hold an AGM in 2022/23.*

2. **Gwybodaeth am seddi gwag Rhieni Llywodraethwyr / etholiadau sydd i ddod:**

   ***Information regarding Parent Governor vacancies / upcoming elections:***

| | |
|---|---|
| Nifer y seddi gwag presennol ar gyfer Rhiant Lywodraethwyr / *Number of current Parent Governor vacancies* | 0 |

Os oes gennych ddiddordeb mewn bod yn Rhiant Lywodraethwr ar y Corff Llywodraethol ac mae swydd wag, mi fydd angen i chi gwblhau ffurflen enwebu a gallwch ei gael o'r Ysgol neu'r Tîm Cefnogi Llywodraethwyr: http://www.ceredigion.gov.uk/Cymraeg/Preswyliwr/Ysgolion-Addysg/Cefnogaeth-Llywodraethwr/Pages/swyddigwag.aspx / 01970 633676/685/616 / llywodraethwyr@ceredigion.gov.uk

*If you are interested in becoming a Parent Governor on the Governing Body and there is a vacancy, you will need to complete a nomination form which you can obtain from the School or from the Governor Support Team: http://www.ceredigion.gov.uk/English/Resident/Schools-Education/Governor-Support/Pages/Vacancies.aspx / 01970 633676/685/616 / governors@ceredigion.gov.uk*

3. **Darpariaeth chwaraeon yn yr Ysgol a'r ddarpariaeth a wnaed ar gyfer gweithgareddau chwaraeon allgyrsiol:**

   ***Sports provision at the School and extra-curricular sports activities:***

**Darpariaeth chwaraeon gan gynnwys gweithgareddau allgyrsiol:**
***Sports provision including extra-curricular activities:***

Yn unol â'n hamcan i feithrin unigolion Iach, hyderus darparwn gyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud gweithgarwch corfforol yn ystod wythnos ysgol. Ein nod yn y lle cyntaf yw datblygu agwedd gadarnhaol at ymarfer corff gan sicrhau cyfle i bob plentyn fagu diddordeb a chymryd rhan. Ein nod yw sicrhau bod pob disgybl yn gadael yr ysgol gyda dealltwriaeth o fuddiannau ymarfer corff i'n lles corfforol ac emosiynol. Anelwn at ddatblygu gallu disgyblion i fireinio eu sgiliau o fewn campau penodol, ac i ddyfalbarhau wrth anelu at gyrraedd y brig wrth gystadlu.

Trwy gynlluniau llythrennedd corfforol, amser chwarae a dysgu awyr agored, rhoddir cyfle i ddisgyblion ymarfer corff yn ddyddiol. Ceir o leiaf awr a hanner dynodedig yr wythnos ar gyfer bob dosbarth i ymgymryd ag ymarfer corff fel dosbarth cyfan. Mae'r sesiynau yma yn cynnwys gwersi nofio i bob disgybl yn yr ysgol.

Manteisia'r ysgol ar y cyfleoedd mae'r Urdd a'r clwstwr o ysgolion lleol yn cynnig inni gystadlu. Ein tuedd yw dewis camp sydd o ddiddordeb i ddisgyblion i gystadlu ynddi e.e. pêl rhwyd, pêl droed, hoci, rygbi, gala nofio, trawsgwlad, athletau, gymnasteg, criced, dawns. Pan gawn ganiatâd, manteisiwn ar ein partneriaeth rhwng y ddwy ysgol, gan sicrhau bod modd creu tîm ar draws y ddwy ysgol o dan yr enw 'Llwyncoch' er mwyn cystadlu.

Mae ein rhaglen o weithgareddau allgyrsiol fel arfer yn cyd-fynd gyda'r gystadleuaeth yr ydym yn ymarfer ar ei chyfer. Rhennir rhaglen o weithgareddau allgyrsiol gyda rhieni ar ddechrau bob tymor.
Cynhelir Mabolgampau'r ysgol yn flynyddol yn nhymor yr Haf ar y cyd rhwng y ddwy ysgol.
Manteisia'r ysgol ar deithiau preswyl gan gynnig cyfleoedd i ddisgyblion ymgymryd â gweithgareddau antur.
Cafwyd y Llysgenhadon Efydd hyfforddiant dan arweiniad swyddogion 'Ceredigion Actif' er mwyn trefnu rhaglen o weithgareddau i ddiddori disgyblion yn ystod amser cinio trwy gydol y flwyddyn.

*In line with our aim to nurture healthy, confident individuals we provide regular opportunities for pupils to do physical activity during the school week. Our aim in the first place is to develop a positive attitude to physical exercise ensuring an opportunity for all children to become interested and take part. We strive to ensure that every pupil leaves school with an understanding of the benefits of exercise for physical and emotional well-being. We aim to develop pupils' ability to refine their skills within specific sports, and to persevere when aiming to reach the top when competing.*
*Through physical literacy curriculum plans, play time and outdoor learning, pupils are given the opportunity to exercise daily. At least an hour and a half is designated weekly for each class to undertake physical exercise as a whole class. These sessions include swimming lessons for every pupil in the school.*
*The school takes advantage of the opportunities that the Urdd and the cluster of local schools offer us to compete. Our tendency is to choose a sport that is of interest to pupils to compete in e.g. netball, football, hockey, rugby, swimming gala, cross country, athletics, gymnastics, cricket. When permitted, we take advantage of our partnership with Penrhyn-coch allowing pupils to compete as one team under the name 'Llwyncoch'. Our programme of extracurricular activities usually coincides with the competition we are training for. A programme of extracurricular activities is shared with parents at the beginning of each term.*
*Sports day is held annually in the Summer term jointly between the two schools.*
*The school takes advantage of residential trips offering pupils the opportunity to undertake adventureous activities.*
*Our Bronze Ambassadors receive training led by 'Ceredigion Actif' officers in order to organise a programme of activities to interest pupils during lunchtime throughout the year.*

## ADRAN 2 – ADRODDIAD BLYNYDDOL LLAWN
## *SECTION 2 – FULL ANNUAL REPORT*

### 1. Aelodaeth Presennol y Corff Llywodraethol / *Current Governing Body Membership:*

| | |
|---|---|
| Cadeirydd ar gyfer y flwyddyn gyfredol:<br>*Chairman for the current year:* | Mr Rob Mills |
| Is-Gadeirydd am y flwyddyn gyfredol:<br>*Vice-Chairman for the current year:* | Dr Gareth Hoskins |

**Aelodaeth y Corff Llywodraethol:**
***Governing Body Membership:***

| **Enw / *Name*** | **Categori (e.e. ALl / Cymunedol / Rhiant) *Category*** | **Cyfrifoldeb / *Responsibility*** | **Cwybodaeth Gyswllt / *Contact Information*** | **Dyddiad Gorffen / Expiry Date** |
|---|---|---|---|---|

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | ***(e.g. LA / Community / Parent)*** | | | |
| Mr Rob Mills | Rhiant / *Parent* Penrhyn-coch | Mathemateg a Rhifedd *Mathematics and Numeracy* E-Ddiogelwch -GDPR-Hwb *E-Safety-GDPR-Hwb* Amddiffyn Plant a Rhiant Corfforaethol *Child Protection and Corporate Parenting* | MillsR43@hwbmail.net | 11/05/2027 |
| Dr Gareth Hoskins | Cymuned / *Community* Penllwyn | Iechyd a Lles / *Health and Well-being* Dyniaethau / *Humanities* *Is-Gadeirydd/Vice Chair* | HoskinsG1@hwbmail.net | |
| Mr Rhodri Gibson | Rhiant/ *Parent* Penrhyn-coch | Gwyddoniaeth a Thechnoleg *Science and Technology* | GibsonR21@hwbmail.net | 15/05/2027 |
| Miss Catryn Lawrence | Pennaeth / *Headteacher* | | LawrenceC53@hwbcymru.net | |
| Cllr Caryl Roberts | ALl / *LA* Penrhyn-coch | | Caryl.Roberts@ceredigion.llyw.cymru | 20/05/2026 |
| Mrs Bethan Evans | Athro / *Teacher* Penrhyn-coch | Cytundeb Llwyth Gwaith; Phresenoldeb *Workload Agreement; Attendance* | evansb561@penrhyncoch.ceredigion.sch.uk | 07/02/2027 |
| Mrs Sian Donnelly | Staff / *Staff* Penrhyn-coch | Addysg Grefyddol *Religious Studies* | | 07/02/2027 |
| Mr Ceris Gruffudd | Cymuned / *Community* Penrhyn-coch | Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu Siartr Iaith *Language, Literacy and Communication Language Charter* | GruffuddC11@hwbmail.net | 07/02/2027 |
| Cllr Eirian Reynolds | Cymuned/ *Community* Penrhyn-coch | | ReynoldsE88@Hwbcymru.net; | 06/02/2028 |
| Cllr Rhodri Davies | ALl / *LA* Penllwyn | Anghenion Dysgu Ychwanegol /*Additional Learning Needs* | DaviesR1464@hwbmail.net | 20/05/2026 |
| Emma Davies | Rhiant / *Parent* Penllwyn | | morrise494@penllwyn.ceredigion.sch.uk | 12/06/2027 |
| Adrian Price | Rhiant / *Parent* Penllwyn | | pricea519@penllwyn.ceredigion.sch.uk | 06/06/2027 |
| Mr Bryn Shepherd | Athro / *Teacher* Penllwyn | | Sshepherd22@hwbcymru.net | 07/02/2027 |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Mrs Cathy Jones | Staff / *Staff* Penllwyn | Hyfforddiant a Sefydlu; Chwythu'r Chwiban *Training and Induction; Govrenor's Forum Whistleblowing* | JonesC2176@hwbcymru.net | 07/02/2027 |
| Cllr Sarah Hughes | Cymuned / *Community* Penllwyn | Y Celfyddydau Mynegiannol *The Creative Arts* | HughesS587@hwbmail.net | 07/02/2027 |
| Ms Lynne Davies | Cymuned / *Community* Penllwyn | | | 14/06/28 |

**Clerc i'r Corff Llywodraethol:**
***Clerk to the Governing Body:***

| Enw / *Name* | Mrs Wendy Jones |
|---|---|
| Cyfeiriad / *Address* | Canolfan Rheidol, Llanbadarn Fawr, Ceredigion, SY23 3UE<br>*decs.llywodraethwyr@ceredigion.gov.uk* |

## 2. Datganiad Ariannol Llawn ar gyfer y flwyddyn flaenorol / *Full Financial Statement for the previous year:*

**Penrhyncoch**
**2363**

| | £ | |
|---|---|---|
| **CYFLAWNIAD ARIANNOL 2023/24** | | **FINANCIAL PERFORMANCE 2023/24** |
| Mae'r Awdurdod Addysg Lleol newydd gau'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Dangosir isod sut y daethpwyd at y cyllid a benodwyd i'r ysgol. | | The Local Education Authority has recently finalised the closure of accounts for the year ended 31 March 2024. The total funding for the school has been derived as set out below. |
| Dyraniad Cyllid Gwreiddiol yn ôl Fformiwla | 432,888 | Formula Funding Initial Allocation |
| Niferoedd Disgyblion | 0 | Pupil Numbers |
| AAA | 2,785 | SEN |
| Y Dreth Annomestig | (5) | National Non-Domestic Rates |
| Cau Ysgol | 0 | School closure |
| Addasiad Arall | 11,543 | Other Adjustment |
| Dyraniad y Gronfa wrth Gefn heb ei Defnyddio | 17 | Allocation of Unutilised Contingency |
| Dyraniad Cyllid Diwygiedig 2023/24 yn ôl Fformiwla | 447,228 | Revised 2023/24 Formula Funding Allocation |
| Gwariant Net | 484,287 | Net Expenditure |
| Amrywiant | (37,060) | Variance |
| Llog ar y Gweddillion | 1,059 | Interest on Balances |
| Gwarged / (Diffyg) - 1 Ebrill 2023 | 53,473 | Surplus / (Deficit) - 1 April 2023 |
| Gwarged / (Diffyg) - 31 Mawrth 2024 | 17,472 | Surplus / (Deficit) - 31 March 2024 |

**Penrhyncoch**
**2363**

| | £ | £ | |
|---|---|---|---|
| **Employee Costs** | | | **Costau Gweithwyr** |
| Teacher Costs | 346,240 | | Costau Athrawon |
| Teaching Assistant Costs | 100,675 | | Costau Cynorthwywyr Dysgu |
| Caretaking Costs | 0 | | Costau Gofalwyr |
| Administrative Officers | 6,491 | | Swyddogion Gweinyddol |
| Supervisors Costs | 7,641 | | Costau Goruchwylwyr |
| Supply Teacher Costs | 18,362 | | Costau Athrawon Cyflewni |
| Other Employee Costs | 100 | | Costau Gweithwyr Eraill |
| ***TOTAL EMPLOYEE COSTS*** | | 479,508 | ***CYF. COSTAU GWEITHWYR*** |
| **Premises Costs** | | | **Costau'r Adeilad** |
| Repair and Maintenance | 8,764 | | Cynnal a Chadw |
| Grounds Maintenance | 380 | | Cynnal a Chadw'r Tir |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Energy Costs | | 13,386 | | Costau Ynni |
| General Rates | | 9,268 | | Trethi |
| Water Charges | | 6,425 | | Costau Dŵr |
| Cleaning Supplies and Services | | 13,715 | | Nwyddau a Gwasanaethau Glanhau |
| ***TOTAL PREMISES COSTS*** | | | 51,938 | ***CYF. COSTAU'R ADEILAD*** |
| **Transport Costs** | - | | | **Costau Trafnidiaeth** |
| Direct Transport Costs | | 1,390 | | Costau Trafnidiaeth |
| Travelling Costs | | 164 | | Costau Teithio |
| ***TOTAL TRANSPORT COSTS*** | | | 1,554 | ***CYF. COSTAU TRAFNIDIAETH*** |
| **Supplies and Services** | - | | | |
| Teaching Resources | - | 9,444 | | Adnoddau Dysgu |
| ICT Resources | - | 8,361 | | Adnoddau TGCh |
| Catering Costs | | 11,923 | | Costau Arlwyo |
| Service Level Agreements | | 6,464 | | Cytundebau Lefel Gwasanaeth |
| Photocopying Costs | - | 1,788 | | Costau Llungopïo |
| Other Supplies and Services | - | 7,860 | | Nwyddau a Gwasanaethau Eraill |
| ***TOTAL SUPPLIES AND SERVICES*** | - | | 45,840 | ***CYF. NWYDDAU A GWASANAETH*** |
| ***GROSS EXPENDITURE*** | | | **578,841** | ***GWARIANT GROS*** |
| **Less: INCOME** | - | | | **Wedi'i Leihau :INCWM** |
| Parental/PTA Income | | -2,125 | | Cyfraniadau Rhieni/CRhA |
| Grants | | -91,093 | | Grantiau |
| Other Income | | -1,335 | | Incwm Arall |
| ***TOTAL INCOME*** | | | -94,553 | ***CYFANSWM YR INCWM*** |
| ***NET EXPENDITURE*** | | | 484,287 | ***GWARIANT NET*** |
| **Funding Available** | - | | | **Cyllid ar Gael** |
| Formula Funding 2023/24 | | 447,228 | | Cyllid yn ôl Fformiwla 2023/24 |
| Balance b/f 1 April 2023 | | 53,473 | | Gweddill c/d 1 Ebrill 2023 |
| | | | 500,701 | |
| ***NET VARIANCE*** | | | 16,413 | ***AMRYWIANT NET*** |
| ***INTEREST*** | | | 1,059 | ***LLOG*** |
| ***TOTAL 23/24 SURPLUS*** | | | 17,472 | ***CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN 23/24*** |

**Penllwyn**

**2313** **£**

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFLAWNIAD ARIANNOL 2023/24** | - | | **FINANCIAL PERFORMANCE 2023/24** |
| Mae'r Awdurdod Addysg Lleol newydd gau'r cyfrifon am y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2024. Dangosir isod sut y daethpwyd at y cyllid a benodwyd i'r ysgol. | | | The Local Education Authority has recently finalised the closure of accounts for the year ended 31 March 2024. The total funding for the school has been derived as set out below. |
| Dyraniad Cyllid Gwreiddiol yn ôl Fformiwla | | 188,355 | Formula Funding Initial Allocation |
| Niferoedd Disgyblion | | 0 | Pupil Numbers |

| | | |
|---|---|---|
| AAA | 0 | SEN |
| Y Dreth Annomestig | 0 | National Non-Domestic Rates |
| Cau Ysgol | 0 | School closure |
| Addasiad Arall | 632 | Other Adjustment |
| Dyraniad y Gronfa wrth Gefn heb ei Defnyddio | 7 | Allocation of Unutilised Contingency |
| Dyraniad Cyllid Diwygiedig 2023/24 yn ôl Fformiwla | 188,994 | Revised 2023/24 Formula Funding Allocation |
| Gwariant Net | 196,199 | Net Expenditure |
| Amrywiant | (7,205) | Variance |
| Llog ar y Gweddillion | 1,404 | Interest on Balances |
| Gwarged / (Diffyg) - 1 Ebrill 2023 | 49,946 | Surplus / (Deficit) - 1 April 2023 |
| Gwarged / (Diffyg) - 31 Mawrth 2024 | 44,145 | Surplus / (Deficit) - 31 March 2024 |

**Penllwyn**

**2313**

| | | £ | £ | |
|---|---|---|---|---|
| **Employee Costs** | - | | | **Costau Gweithwyr** |
| Teacher Costs | | 149,773 | | Costau Athrawon |
| Teaching Assistant Costs | | 21,313 | | Costau Cynorthwywyr Dysgu |
| Caretaking Costs | | 0 | | Costau Gofalwyr |
| Administrative Officers | | 6,491 | | Swyddogion Gweinyddol |
| Supervisors Costs | | 4,582 | | Costau Goruchwylwyr |
| Supply Teacher Costs | | 8,943 | | Costau Athrawon Cyflewni |
| Other Employee Costs | | 100 | | Costau Gweithwyr Eraill |
| ***TOTAL EMPLOYEE COSTS*** | | | 191,203 | ***CYF. COSTAU GWEITHWYR*** |
| **Premises Costs** | - | | | **Costau'r Adeilad** |
| Repair and Maintenance | | 3,050 | | Cynnal a Chadw |
| Grounds Maintenance | | 0 | | Cynnal a Chadw'r Tir |
| Energy Costs | | 12,248 | | Costau Ynni |
| General Rates | | 2,247 | | Trethi |
| Water Charges | | 667 | | Costau Dŵr |
| Cleaning Supplies and Services | | 6,738 | | Nwyddau a Gwasanaethau Glanhau |
| ***TOTAL PREMISES COSTS*** | | | 24,951 | ***CYF. COSTAU'R ADEILAD*** |
| **Transport Costs** | - | | | **Costau Trafnidiaeth** |
| Direct Transport Costs | | 1,150 | | Costau Trafnidiaeth |
| Travelling Costs | | 9 | | Costau Teithio |
| ***TOTAL TRANSPORT COSTS*** | | | 1,159 | ***CYF. COSTAU TRAFNIDIAETH*** |
| **Supplies and Services** | - | | | |
| Teaching Resources | - | 3,522 | | Adnoddau Dysgu |
| ICT Resources | - | 3,610 | | Adnoddau TGCh |
| Catering Costs | | 3,937 | | Costau Arlwyo |
| Service Level Agreements | - | 4,281 | | Cytundebau Lefel Gwasanaeth |
| Photocopying Costs | - | 1,067 | | Costau Llungopïo |
| Other Supplies and Services | - | 4,219 | | Nwyddau a Gwasanaethau Eraill |
| ***TOTAL SUPPLIES AND SERVICES*** | | | 20,637 | ***CYF. NWYDDAU A GWASANAETH*** |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| ***GROSS EXPENDITURE*** | | | **237,949** | ***GWARIANT GROS*** |
| **Less: INCOME** | - | | | **Wedi'i Leihau :INCWM** |
| Parental/PTA Income | | -17 | | Cyfraniadau Rhieni/CRhA |
| Grants | | -36,896 | | Grantiau |
| Other Income | | -4,837 | | Incwm Arall |
| ***TOTAL INCOME*** | | | -41,750 | ***CYFANSWM YR INCWM*** |
| ***NET EXPENDITURE*** | | | 196,199 | ***GWARIANT NET*** |
| **Funding Available** | - | | | **Cyllid ar Gael** |
| Formula Funding 2023/24 | | 188,994 | | Cyllid yn ôl Fformiwla 2023/24 |
| Balance b/f 1 April 2023 | | 49,946 | | Gweddill c/d 1 Ebrill 2023 |
| | | | 238,940 | |
| ***NET VARIANCE*** | | | 42,741 | ***AMRYWIANT NET*** |
| ***INTEREST*** | | | 1,404 | ***LLOG*** |
| ***TOTAL 23/24 SURPLUS*** | | | 44,145 | ***CYFANSWM ARIAN WRTH GEFN 23/24*** |

## 3. Defnydd Grantiau / *Use of Grants:*

| | |
|---|---|
| Swm y dyddrannir i'r Ysgol: / *amount allocated to the School:* | £13,800 a £2300 |

Mae ysgolion yng Nghymru yn cael cyllid fesul disgybl yn benodol i gefnogi a sicrhau cynnydd tebyg ar gyfer pob disgybl sy'n derbyn Cinio Ysgol am Ddim (PYDd). Mae ysgolion yn cynllunio sut y byddant yn gwario'r arian hwn, ac yna'n dangos y cynnydd y mae pob disgybl PYDd wedi'i wneud yn erbyn y gwariant. Mae'n ofynnol i bob ysgol gyhoeddi'r wybodaeth ariannu ar wefan eu hysgol.

£13,800 yw cyfanswm y dyraniad ar gyfer Ysgol Penrhyn-coch ar gyfer 2023-24. £2,300 yw cyfanswm y dyraniad ar gyfer Ysgol Penllwyn ar gyfer 2023-24. Ar hyn o bryd mae poblogaeth PYDd Ysgol Penrhyn-coch yn 20% o'n disgyblion. Mae gan Ysgol Penllwyn 10% o ddisgyblion PYDd ar yr adeg yma.

Mae'r ysgol yn ymgymryd â'r gweithgareddau canlynol i gefnogi disgyblion sy'n wynebu heriau tlodi ac amddifadedd:

- Pennaeth yn cefnogi ac yn monitro cynnydd disgyblion sy'n cael PYDd
- Cynorthwywyr Addysgu yn darparu ymyriadau ar gyfer llythrennedd a rhifedd mewn grwpiau bach neu ar sail 1:1
- Cynorthwywyr Addysgu yn darparu Cefnogaeth Iechyd a Lles mewn grwpiau bach neu ar sail 1:1
- Ymgysylltu â'r gymuned a defnyddio'r cyfleoedd y mae ein cymuned yn eu cynnig i ennyn diddordeb disgyblion a darparu ymdeimlad o berthyn
- Cyfleoedd hyfforddi i staff
- Cyfleoedd cyfoethogi cyn ac ar ôl ysgol trwy weithgareddau allgyrsiol, gwersi nofio a theithiau Ysgol
- Cynyddu cyfranogiad disgyblion PYDd ym mob agwedd o fywyd yr ysgol

Archwilir gwariant GDD yr ysgol yn rheolaidd gan y Corff Llywodraethol

Os credwch y gallech fod yn gymwys i gael PYDd cliciwch ar y ddolen isod:
Prydau Ysgol am Ddim - Cyngor Sir Ceredigion
Mae rhagor o gymorth ar gael i'r rhai sy'n cael prydau ysgol am ddim a nodir yma:
Gwisg Ysgol - Cyngor Sir Ceredigion

*Schools in Wales are given funding on a per pupil basis specifically to support and ensure comparable progress for all pupils in receipt of Free School Meals(FSM). Schools plan how they will spend this money, and then show the progress*

*that each FSM pupil has made against the spending. All schools are required to publish the funding information on their school website.*

*£13,800 is the total allocation for Ysgol Penrhyn-coch for 2023-24. £2300.00 is the total allocation for Ysgol Penllwyn for 2023-24. At present Ysgol Penrhyn-coch's current FSM population is 20% of our pupils. Ysgol Penllwyn has 10% FSM pupils.*

*The schools undertake the following activities to support pupils facing challenges of poverty and deprivation:*

- *Headteacher supporting and monitoring the progress of pupils in receipt of FSM*
- *Teaching Assistants providing interventions for literacy and numeracy in small groups or on a 1:1 basis*
- *Teaching Assistants providing Support with Health and Well-being in small groups or on a 1:1 basis*
- *Community engagement and utilising opportunities our community offers to engage pupils and provide a sense of belonging*
- *Training opportunities for staff*
- *Enrichment opportunities before and after school through extra-curricular activities, swimming lessons and School trips*
- *Increasing participation of FSM pupils in all aspects of school life*

*The school's PDG expenditure is regularly scrutinised by the Governing Body*

*If you think you may be eligible for FSM click the link below:*
*Free School Meals - Ceredigion County Council*

*Further Support is available to those receiving free School meals detailed here:*
*School Uniform - Ceredigion County Council*

## 4. Cyrchfannau y Disgyblion sydd yn ymadael / *Destination of School Leavers:*

**Ysgolion Gynradd Penrhyn-coch:**

| | |
|---|---|
| Nifer y Disgyblion sydd yn gadael ar gyfer Ysgol Uwchradd ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd flaenorol:<br>*Number of Pupils leaving for Secondary School at the end of the previous Academic Year:* | 11 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Ysgol(ion) Uwchradd a'r nifer sydd yn mynychu:<br>*The Secondary School (s) and the number attending:* | Ysgol Penweddig | 9 | Ysgol Penglais | 2 | Arall *Other* | 0 |

**Ysgolion Gynradd Ysgol Penllwyn:**

| | |
|---|---|
| Nifer y Disgyblion sydd yn gadael ar gyfer Ysgol Uwchradd ar ddiwedd y Flwyddyn Academaidd flaenorol:<br>*Number of Pupils leaving for Secondary School at the end of the previous Academic Year:* | 7 |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Yr Ysgol(ion) Uwchradd a'r nifer sydd yn mynychu:<br>*The Secondary School (s) and the number attending:* | Ysgol Penweddig | 4 | Ysgol Penglais | 3 | Arall *Other* | 0 |

## 5. Cysylltiadau gyda'r Gymuned / *Links with the Community:*

Cysylltiadau'r Ysgol gyda'r gymuned (i gynnwys cysylltiadau gyda'r Heddlu):
*The School's links with the community (including links with the Police):*

Mae ein hysgolion yn chwarae rhan bwysig iawn yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Mae hyn yn cynnwys cymuned yr ysgol, y gymuned ble lleolir yr ysgol ynghyd a gweddill Cymru a thramor. Rydym yn sicrhau fod cwricwlwm ac ethos yn yr ysgol yn cefnogi amrywiaeth, magu ymdeimlad o hunaniaeth, ac annog mai trwy gyd-weithio gallwn ddatblygu cymdeithas lwyddiannus.

Eleni cafwyd cyfleoedd i ddatblygu ein cymuned ar draws Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn trwy:

- Ddatblygu partneriaethau er mwyn rhannu arfer dda
- Defnyddio adnoddau ar y cyd gan roi cyfleoedd i wahanol ddisgyblion ryngweithio
- Rhannu arbenigedd staff
- Cynnal Eisteddfod Ysgol ar y cyd
- Tripiau ac ymweliadau ar y cyd
- Gwasanaethau ar y cyd
- Cynnal Mabolgampau ar y cyd
- Ymweliad preswyl i flwyddyn 3&4 i Langrannog a Chaerdydd i flwyddyn 5 a 6
- Sesiynau wythnosol addysg gorfforol ar y cyd
- Cynghorau ysgol ar y cyd

Mae ein disgyblion yn y ddwy ysgol yn frwd iawn wrth godi arian ar gyfer elusennau lleol a chenedlaethol yn cynnwys, Diwrnod Coch, Gwyn a Gwyrdd, Plant Mewn Angen, ayyb. Maent yn angerddol wrth hybu mentrau cenedlaethol megis y Siartr Iaith, Ysgolion Iach ac Eco 'Sgolion, ac wedi elwa o weithdai niferus gan asiantaethau allanol amrywiol. Mae ein disgyblion yn awyddus wrth gyfrannu i drafodaethau gyda'r Heddlu, y nyrs ysgol ac ymwelwyr eraill i'r ysgol.

**Penrhyn-coch**

Cyd-weithiwn yn agos i sicrhau trosglwyddo effeithiol gyda Chylch Meithrin Trefeurig ac Ysgolion Uwchradd y Cylch. Darparwyd rhaglen ar gyfer pontio i'r uwchradd eleni a llwyddodd ddisgyblion i fynychu'r ysgol am ddiwrnodau pontio.

Mae mentrau llwyddiannus eraill y flwyddyn wedi cynnwys:

- cyfleoedd i berfformio a diddanu'r gymuned yn cynnwys: cyngerdd Nadolig, canu yn Tesco, canu i'r cinio cymuned, Eisteddfod ysgol, Eisteddfod yr Urdd, Eistreddfod y Penrhyn, gorymdaith gŵyl Ddewi a Gŵyl Haf.
- cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymholi: partneriaeth prifysgol Aberystwyth ar greu Tŷ Gwydr awtomatig, project cyfranogiad gyda phrifysgol Bryste, project NPEP gyda phrifysgol Aberystwyth, ymweliad â choedwig Gogerddan,
- datblygu ymwydyddiaeth o fyd gwaith: ymweliad gan Nyrs, Parafeddyg, Heddlu,
- datblygu sgiliau entrepreneuraidd: caffi ho ho ho gyda'r elw yn mynd i Cyfeillion Bronglais.
- cyfleoedd i ddatblygu darllen: diolch i Ceris, Non, Francis a Hanna a Gill am ddod i'r ysgol i ddarllen gyda disgyblion. Trerfnwyd Ffair lyfrau scholastic.
- cyfleoedd i ddatblygu sgiliau garddio: diolch i'n gwirfoddolwyr Claire a Jane ac i bob un ddaeth i helpu i'n ymgyrch plannu coed.
- cyfleoedd i ymweld â'r theatr: Gŵyl agor drysau a grant Ewch i weld, perfformiadau Mewn Cymeriad ac Arad Goch.
- Cyfleoedd i ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u bro mebyd: Lawnsiad llyfr *Seren a Sbarc*, Ffair Iaith, Ras yr Iaith, Cwis Dim Clem, Cystadlu yn Sioe Aberystwyth, Sioe Penrhyn-coch, enwi ystâd newydd ar y cyd gyda Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymru, hybu ffyrdd teithio iach i'r ysgol,
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau creadigol: clwb celf a chrefft gyda chefnogaeth Lynwen Jenkins.
- Codi arian ychwanegol ar gfyer cymuned yr ysgol: Grant Tesco, cefnogaeth ariannol i blant difreintiedig gan Cyngor Cymuned a chapel Horeb, grant universal music, cyfraniad gan clwb rotari, Tractor Run, Noson gwis, Disgo Calan Gaeaf, Taith Gerdded, Diolch i bob un sydd wedi cyfrannu at ddigwyddiad codi arian, cais grant

ar ein ran neu yn gyfraniadau ac yn drefnu yn ystod y flwyddyn. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu gwaith trwy gydol y flwyddyn.

**Ysgol Penllwyn**

Cyd-weithiwn yn agos i sicrhau trosglwyddo effeithiol gyda Chylch Meithrin Penllwyn ac Ysgolion Uwchradd y Cylch. Darparwyd rhaglen o waith ar gyfer pontio i'r uwchradd eleni a llwyddodd ddisgyblion i fynychu'r ysgol am ddiwrnodau pontio.

Mae mentrau llwyddiannus eraill y flwyddyn wedi cynnwys:

- cyfleoedd i berfformio a diddanu'r gymuned yn cynnwys: csioe Nadolig, canu yn Tesco, canu yn Nhafarn y Maes, Eisteddfod ysgol, Eisteddfod yr Urdd, Eistreddfod y Penrhyn, Cawl a Chân.
- cyfleoedd i ddatblygu sgiliau ymholi: partneriaeth prifysgol Aberystwyth ar greu Tŷ Gwydr awtomatig, project cyfranogiad gyda phrifysgol Bryste, project NPEP gyda phrifysgol Aberystwyth, ymweliad a choedwig Gogerddan,
- datblygu ymwydyddiaeth o fyd gwaith: ymweliad gan teulu Llaeth Jenkins,
- cyfleoedd i ddatblygu darllen: diolch i'n gwirfoddolwyr am ddod i'r ysgol i ddarllen gyda disgyblion, da iawn hefyd i'r staff a disgyblion bu'n ailwampio llyfrgell yr ysgol.
- cyfleoedd i ddatblygu sgiliau garddio: diolch i'r Gymdeithas rhieni ac athrawon am eu gwaith yn creu'r gardd sensori a sicrhau cyllid ar eu gyfer. Diolch hefyd i Woodland Trust am gyfrannu coed ar gyfer plannu ar dir yr ysgol.
- cyfleoedd i ymweld a'r theatr: Gŵyl Agor Drysau a grant Ewch i weld, perfformiadau mewn cymeriad ac Arad Goch.
- Cyfleoedd i ymfalchïo yn eu Cymreictod a'u bro mebyd: Lawnsiad llyfr *Seren a Sbarc*, Ffair Iaith, Ras yr Iaith, Cwis Dim Clem, Cystadlu yn Sioe Aberystwyth, Sioe Capel Bangor,
- Cyfloeedd i hybu ffyrdd teithio iach i'r ysgol: bws cerdded, cefnogaeth sustrans,
- Cyfleoedd i ddatblygu sgiliau creadigol: clwb celf a chrefft gyda chefnogaeth Lynwen Jenkins. Diolch hefyd i Kathy 'gwau' sydd wedi cynnal clwb gwau wythnosol gyda disgyblion yr ysgol.
- Cyfleoedd newydd yn allgyrsiol: cydweithio a'r clwb ar ôl ysgol a'r Urdd.
- Codi arian ychwanegol ar gyfer cymuned yr ysgol: Grant Tesco, Grant BUPA, grant Universal Music, cyfraniad gan Clwb Rotari, Ras Hwyl, Cawl a Chân, Raffl, sêl planhigion a chacennau. Diolch i bob un sydd wedi cyfrannu at ddigwyddiad codi arian, cais grant ar ein rhan neu yn gyfraniadau ac yn drefnu yn ystod y flwyddyn. Diolch i'r Gymdeithas Rhieni ac Athrawon am eu gwaith trwy gydol y flwyddyn.

*Our schools play a very important role in the local community and the wider community. This includes the families that make up the school, the community in which the school is located, together with the rest of Wales and abroad. We ensure that curriculum and ethos an the school supports diversity, and fosters a sense of identity and encourages that through working together we can develop a successful society.*

*This year there were opportunities to develop our community across Ysgol Penrhyn-coch and Ysgol Penllwyn through:*

- *Developing the partnerships in order to share good practice*
- *Use resources together giving opportunities for different pupils to interact*
- *Share staff expertise*
- *Holding a joint School Eisteddfod*
- *Joint trips and visits*
- *Shared assemblies*
- *Holding joint Sports*
- *Residential visit to year 3&4 to Langrannog and Cardiff to year 5 and 6*
- *Weekly joint physical education sessions*
- *Joint school councils*

*Our pupils in both schools are very enthusiastic in raising money for local and national charities including, Red, White and Green Day, Children in Need, etc. They are passionate about promoting national initiatives such as the Language*

*Charter, Healthy Schools and Eco 'Schools, and have benefited from numerous workshops from various external agencies. Our pupils are eager to contribute to discussions with the Police, the school nurse and other visitors to the school.*

*Penrhyn-coch*

*We work closely to ensure effective transition with Cylch Meithrin Trefeurig and the area's Secondary Schools. A program was provided for transition to secondary school this year and pupils were able to attend school for transition days.*

*Other successful initiatives of the year have included:*
*• opportunities to perform and entertain the community including: Christmas concert, singing at Tesco, singing at the community dinner, school Eisteddfod, Urdd Eisteddfod, Eistreddfod y Penrhyn, St David's festival parade and Summer Festival.*
*• opportunities to develop inquiry skills: Aberystwyth university partnership on creating an automatic greenhouse, participation project with Bristol university, NPEP project with Aberystwyth university, visit to Gogerddan forest,*
*• developing awareness of the world of work: a visit from a Nurse, Paramedic, Police,*
*• developing entrepreneurial skills: ho ho ho cafe with the profits going to Friends of Bronglais*
*• opportunities to develop reading: thanks to Ceris, Non, Francis and Hanna and Gill for coming to the school to read with pupils. A scholastic book fair was organized*
*• opportunities to develop gardening skills: thanks to our volunteers Claire and Jane and to everyone who came to help our tree planting campaign*
*• opportunities to visit the theatre: Opening Doors Festival and th Go and See grant which paif for performances by Mewn Cymeriad and Arad Goch*
*• Opportunities to be proud of their Welshness and their local community: Seren a Sbarc book launch, Language Fair, Language Race, Quiz Dim Clem, Competing at the Aberystwyth Show, Penrhyn-coch Show, naming a new estate together with the Place Names Association Wales, promoting healthy ways of traveling to school,*
*• Opportunities to develop creative skills: art and craft club with support from Lynwen Jenkins.*
*• Raising additional funds for the school community: Tesco grant, financial support for disadvantaged children from Horeb Chapel and the Community Council, universal music grant, contribution from the Rotary Club, Tractor Run, Quiz Night, Halloween Disco, Walk, Thanks to all one who has contributed to a fundraising event, grant application on our behalf or contributions and organizing during the year. Thank you to the Parent Teacher Association for their work throughout the year.*

*Penllwyn School*

*We work closely to ensure an effective transition with Cylch Meithrin Penllwyn and the area's Secondary Schools. A program of work was provided for transition to secondary school this year and pupils were able to attend school for transition days.*

*Other successful initiatives of the year have included:*
*• opportunities to perform and entertain the community including: Christmas show, singing in Tesco, singing in Tafarn y Maes, school Eisteddfod, Urdd Eisteddfod, Eistreddfod y Penrhyn, Cawl a Chân.*
*• opportunities to develop inquiry skills: Aberystwyth university partnership on creating an automatic Greenhouse, participation project with Bristol university, NPEP project with Aberystwyth university, visit to Gogerddan forest,*
*• developing awareness of the world of work: a visit from the Llaeth Jenkins family,*
*• opportunities to develop reading: thank you to our volunteers for coming to the school to read with pupils, well done also to the staff and pupils who revamped the school library.*
*• opportunities to develop gardening skills: thanks to the Parents and Teachers Association for their work in creating the sensory garden and securing funding for them. Thanks also to Woodland Trust for donating trees for planting on the school grounds.*
*• opportunities to visit the theatre: Gŵyl Agor Drusu and the Go and See Grant, performance by Mewn Cymeriad and Arad Goch.*

*• Opportunities to be proud of their Welshness and their local community: Seren a Sparc book launch, Language Fair, Language Race, Quiz Dim Clem, Competing at Aberystwyth Show, Capel Bangor Show,*
*• Opportunities to promote healthy ways of traveling to school: walking bus, sustrans support,*
*• Opportunities to develop creative skills: art and craft club with support from Lynwen Jenkins. Thanks also to Kathy 'gwau' who has held a weekly knitting club with the school's pupils.*
*• New extracurricular opportunities: collaboration with the after school club and the Urdd.*
*• Raising additional funds for the school community: Tesco Grant, BUPA Grant, Universal Music grant, contribution from Rotary Club, Ras Hwyl, Cawl a Chan, Raffle, plant sale and cakes. Thank you to everyone who has contributed to a fundraising event, grant application on our behalf or contributions and organizing during the year. Thank you to the Parent Teacher Association for their work throughout the year.*

Camau a gymerwyd gan y Corff Llywodraethol i ddatblygu / cryfhau cysylltiadau'r Ysgol gyda'r gymuned:
*Steps taken by the Governing Body to develop / strengthen the school's links with the community:*

Mae aelodau'r corff llywodraethol yn weithgar iawn wrth gynnal y cysylltiadau cryf sydd gyda'r Ysgol a'r gymuned, ac wedi bod yn flaenllaw wrth feithrin yr agweddau a amlinellwyd uwchlaw. Mae aelodau'r corff yn:

- Gwirfoddoli yn yr ysgol e.e. sesiynnau darllen, gweithdai arbennigol ar Sbaen a Chynhesu byd eang
- Aelodau'r corff wedi trefnu cyllid am ddarn o ffrwyth a lle yn y clwb ar ôl ysgol i blant difreintiedig ar y cyd gyda'r capel a'r Cyngor cymuned ym Mhenrhyn-coch
- Aelodau'r corff hefyd ar bwyllgor Cymdeithas Rhieni ac Athrawon ac wedi bod yn lwyddiannus wrth ymgeisio am arian ac adeiladu'r gardd sensori ym Mhenllwyn.
- Trefnwyd gweithdy gyda Chymdeithas Enwau Lleoedd Cymraeg ar gfyer enwi ystâd newydd ym Mhenrhyn-coch
- Cydweithio gyda'r corff a'r gymuned ar ymgyrch arafu ceir trwy'r pentref ym Mhenrhyn-coch
- Aelodau'r corff yn ymuno gyda disgyblion ar ymgyrch hybu cerdded i'r ysgol ym Mhenllwyn
- Aelodau'r corff yn bresennol ar noson rhieni ac yn sgwrsio gyda disgyblion ynghylch eu gwaith a sgwrsio gyda rhieni.
- Aelodau'r corff yn weithgar yn cefnogi'r ysgol wrth iddi gymryd rhan yn Eisteddfod Penrhyn-coch.
- Aelodau'r corff yn gwneud cysylltiadau gyda cheisiadau grant e.e. Wales and West, cyngor cymuned

*The governing body are very proactive in working to maintain the strong links the school has with the community and have been pivotal in securing the links outlined above.*
*• Volunteering at school e.g. reading sessions, special workshops on Spain and Global Warming*
*• Members of the body have organized funding for a piece of fruit and a place in the after school club for disadvantaged children jointly with the chapel and community council in Penrhyn-coch*
*• Members of the body are also on the Parents and Teachers Association and have been successful in applying for money and building the sensory garden in Penllwyn.*
*• A workshop was organized with the Welsh Place Names Assocaiation on naming a new estate in Penrhyn-coch*
*• Collaboration with the body and the community on a campaign to slow down cars through the village in Penrhyn-coch*
*• Body members join pupils on a campaign to promote walking to school in Penllwyn*
*• Members of the body are present at parents' evening and chat with pupils about their work and chat with parents.*
*• A member of the body actively supporting the school as it takes part in the Penrhyn-coch Eisteddfod.*
*• Body members making connections for grant applications e.g. Wales and West, community council*

## 6. Polisïau / Strategaethau a fabwysiadwyd gan y Corff Llywodraethol:
## *Policies / Strategies adopted by the Governing Body:*

| **Polisi/Strategaeth** *Policy/Strategy* | **Dyddiad a fabwysiadwyd** ***Date adopted*** | **Gweithredu a gwnaethpwyd gan yr Ysgol / CLl o ganlyniad i fabwysiadu** ***Action carried out by School / GB as a result of adoption*** |
|---|---|---|

| | | |
|---|---|---|
| Polisi cyflogau athrawon<br>*Teacher's Pay Policy* | 6/2/24 | Derbyniwyd y polisi a argymhellwyd. *Adopted the recommended policy.* |
| Polisi Addysg Cydberthynas a Rhywioldeb<br>*Relationships and Sex Education Policy* | 15.11.23 | Derbyniwyd y polisi a argymhellwyd. *Adopted the recommended policy.* |
| Polisi Derbyn<br>*Admissions Policy* | 15.11.23 | Derbyniwyd y polisi a argymhellwyd. *Adopted the recommended policy.* |
| Gwisg ysgol<br>*School Uniform* | 20.6.2023 | Polisi wedi addasu yn sgil canllaw lywodraeth ar gostau gwisg ysgol.<br>*Policy adapted in light of Government guidance on affordability of school uniform.* |

## 7. Dyddiadau Tymor ac Amser Sesiynau / *Term Dates and Session times:*

Tymhorau a Gwyliau Ysgol - Cyngor Sir Ceredigion

## 8. Newidiadau i Brosbectws yr Ysgol ers llynedd / *Changes to the School Prospectus since last year:*

Ein gwefan yw brosbectws yr ysgol.

*Our website is the school's prospectus.*

| | |
|---|---|
| 1. | Ychwanegyd tudalen am gerddoriaeth yn yr ysgol o dan Cwricwlwm. *A page was added about music at the school to the curriculum section.* |
| 2. | Ychwangwyd ffurflen cais am wyliau i'r adran ffurflenni. *A holiday request form was added to the forms section.* |
| 3. | Ywchwanegwyd gwybodaeth am gost y flwyddyn ariannol i'r adran Codi Tâl. *Information regarding the cost of a school year was added to the Charges page.* |
| 4. | Ychwanegwyd adran ar e-ddiogelwch o dan adran Rhieni. *A page about e-safety was added to the Parents section.* |
| 5. | Ychwanegwyd adran ar Senedd yr Ysgol o dan adran dysgwyr. *A school council page was added under the learners section.* |
| 6. | Diweddarwyd y cyngor ar Anghenion Dysgu Ychwnaegol. *The advice regarding Additional Learning Needs was updated.* |

## 9. Y Cwricwlwm / *The Curriculum:*

| |
|---|
| Datganiad Cwricwlwm yr ysgol:<br>*The school's Curriculum Statement:* |
| Darperir cwricwlwm eang a chytbwys sydd yn sicrhau datblygiad ysbrydol, moesol, gwybyddol, diwylliannol, cymdeithasol, corfforol ac emosiynol y plentyn. Cyflwynir ein cwricwlwm trwy gyfrwng themâu difyr ac apelgar i ddisgyblion. Seilir ein cwricwlwm ar brofiadau dysgu cyfoethog sydd yn sbardun gyffrous i'n disgyblion. Holwch y Pennaeth am wybodaeth bellach ar ddarpariaeth ein cwricwlwm. |

*A broad, balanced curriculum is delivered which ensures the spiritual, moral, intellectual, cultural, social, physical and emotional development of the child. Our curriculum is delivered through engaging themes that appeal to our pupils. Enriched learning experiences provide an exciting stimulus for learners. For further information please ask the Headteacher.*

Gwybodaeth ynglŷn â chwricwlwm a dulliau addysgu yn yr ysgol:
*Information regarding the curriculum and teaching methods at the school:*

Gweler wefan yr ysgol.
FFederaliaeth Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn - Curriculum (penrhyncoch.ceredigion.sch.uk)

Darpariaeth i Ddisgyblion ADY:
*Provision of ALN: Pupils:*

Sut mae anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu nodi?

Os oes gan eich plentyn Anghenion Dysgu Ychwanegol, mae'n bwysig eich bod yn cyfathrebu hyn i'r ysgol pan fydd eich plentyn yn dechrau'r ysgol.

Os ydych chi, neu'r athro dosbarth, yn meddwl bod gan eich plentyn anghenion dysgu ychwanegol, trafod yw'r cam cyntaf. Trwy drafodaeth, gallwn sicrhau bod y plentyn, a phawb sy'n gysylltiedig yn cynllunio cefnogaeth addas ac yn ceisio cyngor pellach. Ceir rhagor o wybodaeth am ein polisi ADY ar y wefan ffederaliaeth.

Pwy sy'n gyfrifol am ADY?

Mae gan yr holl staff gyfrifoldeb am gefnogi disgyblion ag ADY. Miss Rhian Cory yw cydlynydd ADY. Mae'n cynghori ac yn trefnu cefnogaeth i ddisgyblion a staff. Mae hyn yn cynnwys ymgynghori ag asiantaethau eraill megis gwasanaethau iechyd, athrawon ymgynghorol a seicolegwyr addysg.

Sut mae disgyblion ag ADY yn cael eu cefnogi?

Rhoddir sylw i unigolion a grwpiau o fewn y dosbarth ynghyd â chefnogaeth benodol gan staff cefnogi arbenigol. Trwy brosesau asesu manwl sy'n adnabod anghenion penodol plentyn yn gynnar, ein nod yw darparu rhaglen sy'n addas ar ei gyfer ac sy'n ei alluogi i lwyddo. Mae'r ysgol yn cynllunio cwricwlwm eang a chytbwys ar gyfer disgyblion, gan ddarparu adnoddau a chefnogaeth briodol gan sicrhau'r gwerth gorau posibl o'r gyllideb a ddyrennir gan yr Awdurdod Lleol. Rydym yn monitro ac adolygu cynnydd disgybl yn barhaus ac yn addasu'r ddarpariaeth yn ôl yr angen.

Sut byddaf yn gwybod a yw fy mhlentyn yn gwneud cynnydd?

Cedwir rhieni mewn cysylltiad agos ynglŷn â datblygiad eu plentyn, a gwahoddir rhieni i bob adolygiad o gynnydd. Mae disgyblion gydag ADY yn gwneud cynnydd cryf yn unol a'u targedau.

*How are additional learning needs identified?*

*If your child has Additional Learning Needs, it is important that you communicate this to the school when your child starts school.*

*If you, or the class teacher, think that your child has additional learning needs, discussion is the first step. Through discussion, we can ensure that the child, and everyone involved plans suitable support and seeks further advice. Further information about our ALN policy can be found on the federalism website.*

*Who is responsible for ALN?*

*All staff have responsibility for supporting pupils with ALN. Miss Rhian Cory is the co-ordinator of ALN. She advises and organises support for pupils and staff. This includes consultation with other agencies such as health services, advisory teachers and educational psychologists.*

*How are pupils with ALN supported?*

*Attention is given to individuals and groups within the classroom together with specific support from specialist support staff. Through detailed assessment processes that identify a child's specific needs early on, our aim is to provide a programme that is suitable for them, and that enables them to succeed. The school plans a broad and balanced curriculum for pupils, providing resources and appropriate support ensuring the best possible value from the budget allocated by the Local Authority. We continuously monitor and review a pupil's progress and adjust the provision as necessary.*

*How will I know if my child is making progress?*

*Parents are kept in close contact regarding their child's development, and parents are invited to every review of progress. ALN pupils make strong progress in relation to their targets.*

## 10.Iaith / *Language:*

| Categori Iaith yr Ysgol:<br>*School's Language Category::* | Cyfrwng Cymraeg<br>*Welsh Medium* |
|---|---|

Yn ôl canllawiau Llywodraeth Cymru ar gategoreiddio ysgolion yn ôl y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, o Fedi 2022 bydd Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn yn:

**Categori 3: Ysgolion Cyfrwng Cymraeg**

- Cymraeg yw'r brif iaith ar gyfer cyfathrebu mewnol yn yr ysgol.
- Mae'n cyfathrebu â rhieni a gofalwyr naill ai yn Gymraeg, yn Saesneg neu'n ddwyieithog yn ôl yr angen.
- Mae hon yn ysgol sydd ag ethos Cymraeg cadarn, gan gefnogi a galluogi'r dysgwyr i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob cyd-destun cymdeithasol yn yr ysgol a'r tu allan iddi.
- Mewn lleoliad trochi mae pob dysgwr yn cael ei addysgu'n llawn yn y Gymraeg, gyda'r Saesneg yn cael ei defnyddio ar brydiau i sicrhau dealltwriaeth yn ystod y cyfnod trochi cynnar.

Mae rhieni di-Gymraeg yn aml yn mynegi eu bod yn poeni na allant helpu eu plentyn gyda'u dysgu os yw'n Gymraeg. Nid oes angen poeni. Os ydych chi neu eich plentyn yn cael trafferth deall ewch at yr athro dosbarth a byddant yn fwy na pharod i helpu.
Wrth gychwyn yn yr ysgol rhoddir llyfryn geiriau allweddol i rieni di-Gymraeg i'w cynorthwyo, a gellir dod o hyd i gopi digidol isod. Gallai fod yn gyfle gwych i ddysgu'r iaith ochr yn ochr â'ch plentyn.

Llyfryn Cymraeg

**Siartr Iaith**

Ym mis Gorffennaf 2017, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru ei strategaeth genedlaethol ar gyfer ein hiaith, Cymraeg 2050: Miliwn o Siaradwyr Cymraeg. Eu nod yw gweld nifer y rhai sy'n medru'r Gymraeg yn codi i filiwn erbyn y flwyddyn 2050. Pwrpas y Siartr Iaith yw ysbrydoli plant a phobl ifanc i ddefnyddio'r Gymraeg ym mhob agwedd o'u bywydau. Mae'r Siarter Iaith i bawb; mae gan bob aelod o gymuned yr ysgol ran i'w chwarae, y cyngor ysgol, dysgwyr, gweithlu, rhieni, gofalwyr, llywodraethwyr a'r gymuned ehangach. Bydd hyn yn sicrhau bod gan bob ysgol berchnogaeth lawn o'u Siarter Iaith. Gyda'n gilydd byddwn yn cynyddu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg gan blant a phobl ifanc.
Rydym yn falch o fod wedi ennill statws Arian am ein hymdrechion i hyrwyddo'r Siartr Iaith yn yr ysgol. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio tuag at statws Aur.

*In accordance with the Welsh Government guidance on School categories according to Welsh-medium provision, from September 2022 Penrhyn-coch and Penllwyn Schools will be:*
***Category 3: Welsh-medium school***

- *Welsh is the school's main language of internal communication.*
- *Communication with parents and carers is in either English, Welsh or bilingually as needed. This is a school with a strong Welsh language ethos at its core, supporting and enabling learners' Welsh language use in all social context in and outside of school.*
- *In a Welsh immersion setting all learners are taught fully in Welsh, with English being used on occasion to ensure understanding during early immersion.*
- *From aged 7 onwards at least 80% of learner's school activities (both curricular and extra-curricular) will be in Welsh.*

*Non-welsh speaking parents express often that they worry about not being able to help their child with their learning if it is through the Welsh medium. There is no need to worry. If you or your child is having trouble understanding please approach the class teacher and they will be more than happy to assist.*
*On starting at the school non Welsh speaking parents are given a key words booklet to aid them, a digital copy of which can be found below. It might be a great opportunity to take up the language along side your child.*
*Welsh Booklet*

**Siartr Iaith**
*In July 2017, The Welsh Government published its national strategy for our language,* Cymraeg 2050: A million Welsh Speakers. *Their aim is to see the number of those able to speak Welsh rise to a million by the year 2050. The purpose of the Siartr Iaith is to inspire children and young people to use Welsh in all aspects of their lives. The Siarter Iaith is for everyone; all members of the school community have a part to play, the school council, learners, workforce, parents, carers, governors and the wider community. This will ensure every school has full ownership of their Siarter Iaith. Together we will increase the social use of Welsh by children and young people.*
*We are proud to have achieved Silver status for our efforts to promote The Siartr Iaith at the school. We are currently working towards Gold status.*

## 11.Cyfleusterau Toiledau (gan gynnwys trefniadau glanhau) / *Toilet Facilities (including cleaning arrangements):*

Caiff toiledau'r ysgol eu glanhau yn ddyddiol gan lanhawyr yr ysgol. Mae'r glanhawyr yn sicrhau bod tai bach disgyblion mewn cyflwr derbyniol ac yn addas i ddisgyblion eu defnyddio. Mae sicrhau labeli cywir ar dapiau yn ran o awdit Iechyd a diogelwch yr ysgol. Os oes problemau gyda'r tai bach mae disgyblion yn adrodd yn syth i aelodau staff a cysylltir ag adran cynnal a chadw adeiladau yr ALl. Mae staff yn sicrhau nad oes gor-dyrru yn y tai bach trwy rhwystro nifer y disgyblion sydd yn cael defnyddio'r tai bach ar y tro. Rydym yn ddiolchgar i Gyngor Ceredigion am ein cefnogi gydag adnewyddu tai bach Ysgol Penrhyn-coch eleni.

*The school toilets are cleaned daily by the school's cleaners. The cleaners ensure that toilets are of an acceptable standard for pupils use. Correct labelling of hot and cold water taps is always checked as part of the school's health and safety audit. If there is a problem with the toilets pupils report to staff who then contact the LA's Buildings and Maintenance department immediately. Staff ensure that the toilets are not overcrowded by restricting the number of pupils who can use the toilets at any given time. Last year pupils planned and designed appropriate décor for the school toilets. We are grateful; to Ceredigion Council for supporting u sin renewing the toilets at Ysgol Penrhyn-coch during this year.*

## 12.Bwyta ac Yfed yn Iach / *Healthy Eating and Drinking:*

| Gweithredu a wnaethpwyd gan yr ysgol i hyrwyddo bwyta ac yfed iach:<br>*Action taken by the school to promote healthy eating and drinking:* |
|---|
| Mae Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn wedi cyrraedd Cam 5 Ysgolion Iach. Trwy weithgareddau'r Senedd Ysgol caiff disgyblion eu hannog i fwyta cinio iachus yn ddyddiol ac i yfed digonedd o ddŵr. Mae'r Ysgol yn hybu agweddau cadarnhaol ymysg ein disgyblion tuag at gadw'n heini yn unol a'n polisi Bwyd a Ffitrwydd. Caiff agweddau at fwyta ac yfed yn iach ei ymgorffori i'n cwricwlwm ysgol o fewn ein themâu.<br><br>*Ysgol Penrhyn-coch and Ysgol Penllwyn has reached Stage 5 Healthy Schools. Through the activities of the School Senedd pupils are encouraged to eat a healthy lunch every day and to drink plenty of water. The school promotes positive attitudes among our pupils towards keeping fit in line with our Food and Fitness policy. How to eat and drink healthily is explored through our curriculum and is incorporated within our themes.* |

| **ADRAN 3 – ESTYN Ac Effeithlonrwydd y corff llywodraethol (Fframwaith Arolygu Cyffredin 3.1.2):** |
|---|
| ***SECTION 3 – ESTYN and the effectiveness of the governing body (CIF 3.1.2):*** |

| **Sut mae'r Corff Llywodraethol yn cyflawni ei rhwymedigaethau strategol:** |
|---|
| ***How the Governing body fulfils its statutory obligations*:** |

Bydd yr Arolygwyr yn barnu sut mae Cyrff Llywodraethol yn cyflawni eu rhwymedigaethau strategol ac yn ystyried y deddfwriaethau a'r canllawiau perthnasol. Isod mae esboniadau manwl o sut mae'r Corff Llywodraethol wedi gwneud yr Ysgol yn atebol gan wella dysgu ar gyfer y disgyblion.

*Inspectors will judge how well the governing body fulfils its statutory obligations and takes full account of relevant legislation and guidance. Below are detailed explanations of how we as the Governing Body have held the school to account and improved learning for our pupils.*

| **Meini Prawf Fframwaith Arolygu Cyffredin:**<br>***Common Inspection Framework Criteria:*** | **Manylion o sut mae'r Corff Llywodraethol wedi dangos y meini prawf trwy gydol y flwyddyn a'r effaith:**<br><br>***Details of how the Governing Body have demonstrated the criteria throughout the year and the impact:*** |
|---|---|
| ▪ Pa mor dda ydym ni yn deall ein rolau?<br>▪ *How well do we understand our roles?* | ▪ Mae'r holl staff yn rhannu gweledigaeth, gwerthoedd a phwrpas cyffredin.<br>▪ Mae monitro yn galluogi Llywodraethwyr i ddatblygu eu dealltwriaeth o'r cyd-destun a sut mae'r ysgol yn perfformio i gymharu ag ysgolion tebyg.<br>▪ Mae'r holl Lywodraethwyr yn cwrdd yn aml ac yn weithgar iawn o ran monitro a gwerthuso safonau a darpariaeth.<br>▪ Cyfarfodydd un i un rhwng y Cadeirydd a'r Llywodraethwyr i ganfod sgiliau, profiad, arbenigedd a meysydd o ddiddordeb.<br>▪ Cymharu ymarfer da gyda Chyrff Llywodraethol sy'n perfformio'n dda, trwy ddefnyddio astudiaethau achos Estyn i gynhyrchu syniadau ac ysgogiad ar gyfer newid.<br>▪ Rhaglen waith flynyddol i Lywodraethwyr a phwyllgorau.<br>▪ Y Corff Llywodraethol yn monitro a gwerthuso ei berfformiad ei hun ac yn parhau i fod yn effeithiol.<br><br>• *All staff share common vision, values and purpose.*<br>• *Monitoring undertaken enables Governors to develop their understanding of the context and how well the school is performing in comparison with similar schools.*<br>• *All governors meet regularly and take an active part in monitoring and evaluating standards and provision.* |

| | |
|---|---|
| | • *Annual work programme for governors, for all committees.*<br>• *The Governing Body monitors and evaluates its own performance to remain effective.* |
| ▪ Pa mor dda ydym wedi cyflawni ein rhwymedigaethau statudol gan ystyried y deddfwriaethau a chanllawiau perthnasol?<br>▪ *How well do we fulfil our statutory obligations and take account of relevant legislation and guidance?* | ▪ Mae polisïau a mentrau, gan gynnwys y rhai sydd yn bodloni blaenoriaethau lleol a chenedlaethol, yn cael eu gweithredu'n gyson ac yn gwella canlyniadau disgyblion.<br>▪ Mae gan Lywodraethwyr wybodaeth fanwl ar berfformiad yr ysgol gan wneud yr ysgol yn atebol i'r safon mae'n ei chyflawni.<br>▪ Mae rôl monitro y Llywodraethwyr yn cynnwys adolygu cwricwlwm yr ysgol a pholisïau rheoli. Mae hyn wedi'i hamseri i sicrhau bod y polisïau a gweithdrefnau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd.<br>▪ Mae yna amserlen i fonitro safonau a darpariaeth ar draws yr ysgol sydd wedi'i drefnu ymlaen llaw i sicrhau bod Llywodraethwyr yn gwneud y trefniadau priodol i gymryd rôl weithgar yn y broses.<br>▪ Nodwyd bod Llywodraethwyr yn gyfrifol am wahanol agweddau o waith yr ysgol gan gynnwys meysydd cwricwlaidd penodol (e.e. Bydd Llywodraethwyr yn monitro samplau o waith, trafod gwaith gyda grŵp o ddysgwyr ac yn arsylwi ar wersi).<br>▪ Mae'r ysgol yn trefnu wythnos asesiadau i fonitro os ydy disgyblion a dosbarthiadau ar y trywydd iawn i gwrdd â'u targedau. Mae'r canlyniadau yn cael eu trafod ac os oes unrhyw anghysondeb rhwng y targedau a'r canlyniadau mae strategaethau yn cael eu gosod i sicrhau gwelliant.<br><br>*Examples:*<br>▪ *Policies and initiatives, including those that meet local and national priorities, are implemented consistently and improve pupil outcomes.*<br>▪ *Governors have an in depth knowledge of the performance of the school and rigorously hold it to account for the standard it achieves.*<br>▪ *The Governors' monitoring role includes reviewing the school's curriculum and management policies. This is timetabled to ensure that policies and procedures are updated on a regular basis.*<br>▪ *There is a timetable for monitoring standards and provision across the school which is set well in advance to enable Governors to make the necessary arrangements to take an active role in the process.*<br>▪ *Governors have been identified to be responsible for different aspects of the school's work including individual curricular areas (e.g. Governors monitor samples of work, discuss work with groups of learners, and observe lessons)*<br>▪ *The school arranges assessment week to monitor if pupils and classes are on track to meet projected targets. Results are discussed; discrepancies between targets and results, and strategies are put into place to bring about improvements.* |
| ▪ Sut ydym yn cael gwybodaeth dda am berfformiad ein hysgol a'r materion sydd yn ei heffeithio?<br>▪ *How do we have good information about the performance of our school and issues that affect it?* | ▪ Mae gan yr arweinwyr ddisgwyliadau uchel ar gyfer sicrhau gwelliant ac yn herio staff mewn modd cadarnhaol.<br>▪ Mae gan Lywodraethwyr ddealltwriaeth glir o berfformiad yr ysgol, ei llwyddiannau ac anghenion y disgyblion a'r staff.<br>▪ Mae arweinwyr yr ysgol yn trafod y data craidd gyda'r Llywodraethwyr ac yn adnabod y prif negeseuon a'r camau sydd angen eu cymryd.<br>▪ Mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn rhoi disgrifiad swydd cynhwysfawr wedi'i ddiweddaru sydd yn diffinio'n glir y rolau a chyfrifoldebau ar gyfer monitro a gwella safonau. |

| | |
|---|---|
| | ▪ *Leaders communicate high expectations for securing improvement and challenge staff positively to good effect.*<br>▪ *Governors have a clear understanding of the school's performance and achievements and the needs of pupils and staff.*<br>▪ *The school leaders discuss the core data sets with the Governors and identify the main messages and actions to be taken.*<br>▪ *Leadership team gives a comprehensive, updated job description with clearly defined roles and responsibilities for monitoring and improving standards.* |
| ▪ Sut ydym yn darparu cyfeiriad ar gyfer gwaith ein hysgol?<br>▪ *How do we provide a sense of direction for the work of our school?* | ▪ Mae Arweinwyr a Llywodraethwyr yn defnyddio gwybodaeth rheoli berthnasol am berfformiad i ddelio â thangyflawni ac yn gosod amcanion a thargedau, sef blaenoriaethau strategol.<br>▪ Mae Llywodraethwyr yn rhan o ddatblygiad yr Adroddiad Hunan-arfarnu a Chynllun Gwella'r Ysgol, ac yn gwneud yr ysgol yn atebol drwy fonitro targedau a chwestiynu (tan)gyflawniad yn dymhorol.<br><br>▪ *Leaders and governors use relevant management information about performance to address issues of underperformance and to set objectives and targets that are strategic priorities.*<br>▪ *Governors are involved in the development of the school self-evaluation report and development plan, and hold the school to account by monitoring targets and questioning (under)achievement termly.* |
| ▪ Sut ydym yn cefnogi ein hysgol fel cyfaill beirniadol ac yn gwneud yr ysgol yn atebol i'r safonau a'r ansawdd y maent yn ei gyflawni?<br>▪ *How do we support our school as critical friends, and hold the school to account for the standards and quality they achieve?* | ▪ Mae Llywodraethwyr yn dangos penderfyniad wrth herio a chefnogi'r ysgol i gyrraedd y gwelliannau angenrheidiol.<br>▪ Mae Llywodraethwyr yn medru herio arweinwyr yr ysgol mewn ffordd gefnogol, drwy ddefnyddio yr amrywiaeth o wybodaeth sydd ar gael.<br>▪ Maent yn darparu cymorth ac anogaeth pan fod strategaethau i gyrraedd gwelliant yn cael eu trafod.<br>▪ Mae systemau yn eu lle i fonitro a gwerthuso gwaith yr ysgol.<br><br>▪ *Governors show determination in challenging and supporting the school in bringing about necessary improvements.*<br>▪ *Governors are able to challenge the school leaders in a supportive manner, using the range of information available.*<br>▪ *Providing support and encouragement when strategies to bring about improvements are being explored.*<br>▪ *Having systems in place to monitor and evaluate the work of the school.* |
| ▪ Sut ydym yn cymryd y camau rhesymol i hysbysu disgyblion, aelodau o staff, rhieni/gwarchodwyr neu unrhyw berson arall o weithdrefnau os hoffent wneud cwyn neu apelio?<br>▪ *How do we take reasonable steps to inform pupils, members of staff, parents/carers or any other person of the procedures if they wish to make a complaint or appeal?* | • Mae'r Polisi Cwynion yn cydymffurfio gyda Chanllawiau Llywodraeth Cymru.<br>• Mae'r Polisi ar gael ar wefan yr ysgol, ac ar gais o'r ysgol.<br>• Mae'r polisi yn cael ei adolygu'n flynyddol ac wedi'i fabwysiadu'n ffurfiol gan y Corff Llywodraethol.<br><br>• *The complaint policy complies with the Welsh Government guidelines.*<br>• *The Policy is available on the school website, and on request from the school.*<br>• *The Policy is reviewed annually and has been formally adopted by the Governing Body.* |

| | |
|---|---|
| ▪ Sut ydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn delio â chwynion yn brydlon gan grwpiau diduedd?<br>▪ *How do we make sure that complaints are dealt with promptly by interested parties?* | • Caiff pob cwyn eu trin o fewn y terfynau amser a nodwyd.<br>• Caiff pob cwyn eu cofnodi dan bob cam a'u hymchwilio gan berson priodol.<br>• Caiff pob cwyn eu hadrodd yn ôl i'r Corff Llawn yn Adroddiad tymhorol y Pennaeth.<br><br>• *All complaints have been dealt within the given deadlines.*<br>• *All complaints at each stage have been recorded and investigated by the appropriate person.*<br>• *All complaints are reported to the full governing body in the Headteacher's termly report.* |

**3. Blaenoriaethau Cenedlaethol a Lleol / *National and Local Priorities:***

Gwybodaeth am sut mae gwaith y Corff Llywodraethol wedi helpu'r ysgol i gwrdd a blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.

*Information on how the work of the Governing Body has helped the school to meet national and/or local priorities:*

| **Blaenoriaeth Cenedlaethol-Lleol** ***National-Local Priority*** | **Gweithredu gan yr Ysgol / CLl** ***Action taken by the School / GB*** | **Effaith ar y disgyblion/ysgol** ***Effect on the pupils/school*** |
|---|---|---|
| 1. Dysgu am oes | Cefnogaeth wedi'i dargedu i ddisgyblion i sicrhau cynnydd yn eu llythrennedd emosiynnol, llythrennedd, rhifedd a chymhwysedd digidol.<br><br>Datblygu ein dealltwriaeth o gynnydd gan dalu sylw penodol ar effeithlonrwydd disgyblion fel dysgwyr.<br><br>Ysgol yn cynnal awdit blynyddol ohoni ei hun fel ysgol fel sefydliad sy'n dysgu, gan sicrhau bod ein prosesau a'n ethos yn arwain at welliant parhaus ar draws cymuned yr ysgol. | Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarhanol at eu dysgu.<br><br>Mae llawer o ddisgyblion yn medru trafod eu dysgu mewn modd aeddfed, yn adnabod yr hyn maent yn dda ynddi, ac yn medru adnabod targedau i'w gwella. |
| 2. Chwalu rhwystrau | Defnydd effeithiol o'r grant amddifadedd disgyblion i dargeu disgyblion difreintiedig yn effeithiol.<br><br>Hybu cefnogaeth ar gael i deuluoedd.<br><br>Trawsnewid y ffordd rydym yn cefnogi disgyblion ADY.<br><br>Hybu cynhwysiant, cydraddoldeb a chyfranogiad. | Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion difreintiedig yn chwarae rhan lawn ym mywyd yr ysgol.<br><br>Gwna ddisgyblion ADY gynnydd da yn unol a'u targedau. |
| 3. Profiad addysg cadarnhaol i bawb | Blaenoriaeth ysgol eleni yw datblygu dylanwad llais y disgybl ar waith yr ysgol.<br><br>Ethos o flaenoriaethu lles disgyblion.<br><br>Cydberthnasau effeithiol gyda rhieni ac asiantaethau cefnogol.<br><br>Sicrhau cwricwlwm eang a chytwbwys, gyda sbardunau dioddorol ac amrywiol i'r dysgu, mynediad gan bawb at weithgareddau allgyrsiol. | Cydnabyddir ein ethos gofalgar fel arfer dda. |

| | | |
|---|---|---|
| | Parhau i ymgorffori fframwaith Addysg Cydberthnasau a Rhywioldeb i mewn i'n cwricwlwm. | |
| 4. Ddysgu ac arweinyddiaeth o ansawdd uchel | Blaenoriaeth ysgol i sicrhau bod disgwyliadau athrawon yn ddigon uchel i gefnogi'r holl ddisgyblion i gyflawni hyd eithaf eu gallu .<br><br>Datblygu ethos o ymholi.<br><br>Sicrhau raglenni a darpariaeth broffesiynol barhaus systemau rheioli perfformiad effithiol. | Gwelwyd gwelliant yn nysgu y rhan fwyaf o ddisgyblion yn sgil ein prosesau gwella ansawdd. |
| 5. Dysgu yn y gymuned | Ymrwymiad i fagu perthnasau effeithiol gyda theuluoedd.<br><br>Hybu presenoldeb.<br><br>Cysylltiadau gyda busnesau, elusennau, clybiau a gwasanaethau lleol.<br><br>Cynefin yn wraidd i'n cwricwlwm. | Mae disgyblion yn elwa yn sylweddol o'n cysylltiadau gyda'r gymuned. |
| 6. Mae'r Gymraeg yn perthyn i ni gyd | Hybu Cymraeg a chymreictod. | Mae gan llawer o ddisgyblion agweddau cadarnhaol at y Gymraeg. |

| ***National-Local Priority*** | ***Action taken by the School / GB*** | ***Effect on the pupils/school*** |
|---|---|---|
| *1. Learning for life* | *Targeted support for pupils to ensure progress in their emotional literacy, literacy, numeracy and digital competence.*<br><br>*Develop our understanding of progress paying particular attention to the efficiency of pupils as learners.*<br><br>*A school conducts an annual audit of itself as a school as a learning organisation, ensuring that our processes and ethos lead to continuous improvement across the school community.* | *Most pupils show positive attitudes to their learning.*<br><br>*Many pupils are able to discuss their learning in a mature way, recognize what they are good at, and are able to identify targets for improvement.* |
| *2. Breaking down barriers* | *Effective use of the pupil deprivation grant to target disadvantaged pupils effectively.*<br><br>*Promote support available to families.*<br><br>*Transform the way we support ALN pupils.*<br><br>*Promote inclusion, equality and participation.* | *Most disadvantaged pupils play a full part in school life.*<br><br>*ALN pupils make good progress in line with their targets.* |

| | | |
|---|---|---|
| *3. A positive Education experience for everyone* | *The school's priority this year is to develop the influence of the pupil's voice on the school's work.*<br><br>*An ethos of prioritizing the welfare of pupils.*<br><br>*Effective relationships with parents and supporting agencies.*<br><br>*Ensuring a broad and balanced curriculum, with interesting and varied learning triggers, access by all to extracurricular activities.*<br><br>*Continue to incorporate the Relationships and Sexuality Education framework into our curriculum.* | *Our caring ethos is recognized as good practice.* |
| *4. High-quality teaching and leadership* | *A school's priority to ensure that teachers' expectations are high enough to support all pupils to achieve to the best of their ability*<br>*Develop an ethos of inquiry.*<br><br>*Ensuring ongoing professional programs and provision of effective performance management systems.* | *An improvement was seen in the learning of most pupils as a result of our quality improvement processes.* |
| *5. Community-based learning* | *A commitment to fostering effective relationships with families.*<br><br>*Promote attendance.*<br><br>*Links with local businesses, charities, clubs and services.*<br><br>*Habitat is at the root of our curriculum.* | *Pupils benefit significantly from our links with the community.* |
| *6. Cymraeg belongs to us all* | *Promoting Welsh and Welshness.* | *Many pupils have positive attitudes towards the Welsh language.* |

Weler grynodeb o'n cynllun datblygu ysgol trwy dilyn y ddolen.
*Please see below a link to a summary of our school Development plan.*
FFederaliaeth Ysgol Penrhyn-coch ac Ysgol Penllwyn - Sefydliad sy'n dysgu (llwyncoch.cymru)

## 4. Targedau'r Cynllun Ôl Arolwg (lle mae'n berthnasol) / *Post Inspection Plan Targets (where applicable):*

| | |
|---|---|
| Dyddiad Arolwg diwethaf Estyn:<br>*Date of the last Estyn Inspection:* | Medi 2022 / *September 2022* |
| **Argymhellion yn dilyn o Arolwg Estyn:**<br>***Recommendations following the Estyn Inspection:*** | |
| Ysgol Penrhyncoch \| Estyn (gov.wales) | |

**5. Llais y Disgybl / *Pupil Voice:***

| | |
|---|---|
| **Senedd Ysgol:** ***School Council:*** | Cyfunwyd pwyllgorau'r ysgol gynt i greu 2 Senedd ysgol ar wahân ar gyfer ysgol Penrhyn-coch ac ysgol Penllwyn.<br><br>Mae aelodau Senedd yr ysgol yn cael eu dewis yn flynyddol i gynrychioli disgyblion yr ysgol a sicrhau bod ein llais yn cael ei glywed. Mae rhai aelodau yn cael eu hethol gan ddisgyblion eraill, tra bod eraill yn cael eu dewis gan staff. Ceisiwn sicrhau bod pawb yn cael eu cynrychioli - disgyblion difreintiedig, disgyblion ag Anghenion Dysgu Ychwanegol a disgyblion o wahanol gefndiroedd Ethnig.<br><br>Mae gan Aelodau'r Senedd rolau fel Cadeirydd, ysgrifennydd a thrysorydd, ond hefyd gyfrifoldebau dros Eco-Sgolion, Ysgolion Iach, Siartr Iaith a Hawliau Plant.<br><br>Ein rôl yw:<br><br>Trefnu digwyddiadau a chodi arian: rydym yn aml yn cynllunio digwyddiadau fel gwerthu cacennau, a digwyddiadau elusennol fel Plant Mewn Angen, wythnos Masnach Deg, Big Pedal.<br><br>Eirioli ar gyfer anghenion myfyrwyr: rydym yn gwneud yn siŵr ein bod yn dweud wrth staff a llywodraethwyr yr ysgol am yr hyn y mae dysgwyr yn yr ysgol yn poeni amdano a beth sydd angen ei newid yn yr ysgol. Rydym yn cynnal holiaduron i gasglu barn dysgwyr. Fe wnaethom helpu i gael gemau Cymraeg ar gyfer yr iard, a helpu i wneud newidiadau i amseroedd chwarae.<br><br>Cynllunio gwelliannau i'r ysgol: Mae'r Senedd yn gweithio gyda arweinwyr yr ysgol i nodi meysydd i'w gwella, megis cyfleusterau neu gwricwlwm, a datblygu cynlluniau gweithredu i fynd i'r afael â'r materion hyn. Er enghraifft, cynyddu defnyddio llais y disgybl i lywio ein dysgu yn y dosbarth.<br><br>*Members of the school Senedd are chosen every year to represent pupils at the school and make sure our voice is heard. Some members are elected by other pupils, while others are chosen by staff. We try to make sure that everybody is represented - disadvantaged pupils, pupils with Additional Learning Needs and pupils from different ethnic backgrounds.*<br><br>*Members of the Senedd have roles like Chair person, secretary and treasurer, but also responsibilities for Eco Schools, Healthy Schools, Siartr Iaith and Children's Rights.*<br><br>*Our role is:*<br><br>1. *Organising events and fundraisers: we often plan events like cake sales, and charity events like children in need, fair trade week, Big Pedal.*<br><br>2. *Advocating for student needs: we make sure we tell staff and governors at the school about what learners at the school are concerned about and what needs to change at the school. We hold questionnaires to collect the opinion of learners. We helped get Welsh language games for the yard, and helped to make changes to play times.*<br><br>3. *Planning school improvements: The Senedd works with the school's leaders to identify areas for improvement, such as facilities or curriculum, and develop action plans to address these issues. For example increasing using pupil voice to inform our learning in class.* |
| **Cynnwys Llais y Disgyblion:** ***Pupil Voice inclusion:*** | Holiaduron disgyblion<br>Grwpiau Ffocws<br>Stratagaethau ar lawr dosbarth: Grwpiau ffocws, exit passes, gêm dis, blychau syniadau, coeden blob, pensil taith dysgu, casglu syniadau disgblion, cyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau<br>Cyfleoedd i ddisgyblion arwain y dysgu |

| | |
|---|---|
| | *Pupils' questionnaires*<br>*Focus Groups*<br>*Classroom strategies: Focus groups, exit passes, dice game, idea boxes, blob tree, learning journey pencil, collecting pupils' ideas, opportunities for pupils to make decisions*<br>*Opportunities for pupils to lead the learning* |

**ADRAN 4 – Deiseb rhieni a chyfarfodydd:**

***SECTION 4 – Parental petitions and meetings:***

**6. Deiseb / *Petitions:***

Mae Deddf Safonau a Thrafnidiaeth Ysgolion (Cymru) 2013 yn darparu trefniadau sydd yn galluogi rhieni i ofyn am gyfarfod gyda'r Corff Llywodraethol. Bydd angen i rieni gyflawni pedwar gofynion statudol wrth ofyn am gyfarfod, sy'n cynnwys:

*The School Standards Act 2013 (Section 94) provides arrangements whereby parents can request a meeting with the Governing Body. Parents will need to fulfil four statutory requirements when requesting a meeting which include:*

| | |
|---|---|
| 1. | Dylid deiseb cael ei chyflwyno gyda llofnod 10% o ddisgyblion cofrestredig neu rieni 30 o ddisgyblion cofrestredig (pa bynnag yw'r isaf).<br>*A petition should be presented with the signatures of the parents of 10% of registered pupils or the parents of 30 registered pupils (whichever is the lower).* |
| 2. | Rhaid i bwrpas y cyfarfod bod i drafod materion sy'n berthnasol i'r ysgol.<br>*The meeting must be for the purpose to discuss matters relating to the school.* |
| 3. | Uchafswm o gyfarfodydd gall rieni alw mewn blwyddyn ysgol ydy tri (3).<br>*The maximum number of meetings that parents can request in a school year is three (3).* |
| 4. | Rhaid bod digon o ddyddiau ysgol fod ar ôl mewn blwyddyn i gynnal cyfarfod.<br>*There must be sufficient school days left in the year to allow a meeting to be held.* |

**Mae gofynion statudol ychwanegol ynghylch y cyfarfod yn cynnwys:**
***Further statutory requirements regarding the meeting include:***

| | |
|---|---|
| 1. | Rhaid i'r Cyfarfod cael ei gynnal o fewn 25 diwrnod ysgol o dderbyn y deiseb.<br>*The Meeting must be held within 25 school days of receiving the petition.* |
| 2. | Mae cyfnod y 25 diwrnod yn dechrau y diwrnod ar ôl derbyn y deiseb.<br>*The 25 day period commences the day after receipt.* |
| 3. | Os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod 25 diwrnod hwnnw yn dechrau tan y diwrnod ar ôl i'r gyfarfod arall cael ei gynnal.<br>*If another meeting is required as a result of a different petition, the 25 day period will not commence until the day after the other meeting has been held.* |

| | |
|---|---|
| 4. | Bydd y cyfarfodydd yn agored i holl rieni o ddisgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw berson arall caiff eu gwahodd gan y Corff Llywodraethol.<br>*Meetings will be open to all parents of registered pupils at the school, the headteacher and any other person invited by the Governing Body.* |
| 5. | Rhaid i hysbysiad o gyfarfodydd i rieni gynnwys y dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod a'r mater(ion) i'w trafod.<br>*Notification of meetings to parents must include the date, time and venue of the meeting and the matter(s) to be discussed.* |

Rhaid i'r Corff Llywodraethol hysbysu'r rhieni'n flynyddol am yr hawl i gyflwyno deiseb am gyfarfod gan ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan Adran 94.
*The Governing Body must inform parents annually of the right to petition a meeting using the powers provided by Section 94.*

**NEWIDIADAU I**

**GYFARFODYDD BLYNYDDOL Y RHIENI / LLYWODRAETHWYR (2013)**

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol.

Fodd bynnag, bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar (4) gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef:-

(i) rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;

(ii) rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;

(iii) y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);

(iv) rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.

At hynny:-

(a) rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod;

(b) mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;

(c) os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;

(ch) rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;

(d) bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;

(dd) mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.

**Bydd angen i gyrff llywodraethu roi gwybod i'r rhieni yn flynyddol am yr hawl i ddeisebu cyfarfod trwy ddefnyddio'r pwerau a ddarperir gan Adran 94.**

**CHANGES TO THE ANNUAL PARENT/GOVERNOR MEETINGS (2013)**

Section 94 School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) makes important changes to the previous legislative arrangements in respect of the Annual Parent/Governor Meetings. It provides new arrangements whereby parents can request a meeting with a governing body.

However, the parents will need to satisfy the four (4) statutory requirements when calling a meeting which are as follows:-

(i) that the parents of 10% of registered pupils, or the parents of 30 registered pupils (whichever is the lower) must sign a petition requesting a meeting;

(ii) the meeting must be for the purpose of discussing matters relating to the school;

(iii) the maximum number of meetings that parents can request in any school year is three (3);

(iv) there must be sufficient school days left in the school year to allow a meeting to be held.

Further:-

(a) meetings must be held before the end of a 25 day period;

(b) the 25 day period commences the day after receipt of the petition but does not include any day which is not a school day;

(c) if another meeting is required to be held as a result of a different petition the 25 day period will not commence until the day after the other meeting has been held;

(d) there must be sufficient days left in the school year to allow a meeting to be held before the end of the 25 day period;

(e) meetings will be open to all parents of registered pupils at the school, Head and any other person invited by the governing body;

(f) notification of meetings to parents must include the date, time and venue of the meeting and the matter or matters to be discussed.

**Governing bodies will need to inform the parents annually of the right to petition a meeting using the powers provided by Section 94.**